




Llawlyfr
Pontio i
Weithwyr
Allweddol
Blynnnyddoedd
Cynnar, yn y
Meithrin.

(Source:IMGBIN,2019)

Dhammi Elwynedd Morris
(1811640)

Datblygiad Dynol
ESEE4003/C

Tudalen Cynnwys

Beth yw pontio?	3
Pam mae Pontio yn bwysig?.....	3
Pwrpas y Llawlyfr	3
Sut i ddenfnyddio?	6
Rôl yr Oedolyn	8
Pam mae'n bwysig?.....	10
Anghenion Y Plentyn	14
Chwarae	14
Sut i gefnogi plant?	16
Perthnasoedd	18
Casgliad	21
Rhestr Cyfeirnod	22

(Source: The Telegraph, 2017)



Cyflwyniad: Pontio yn y Blynyddoedd Cynnar

Beth yn union yw pontio i blant?

Pontio: Y symudiad esmwyth o un peth, digwyddiad, gweithgaredd neu le, i rywbeth arall, e.e. wrth i blant dechrau yn eich meithrin. (Collins Dictionary, 2020).

Pam mae pontio yn bwysig?


Mae cyfnodau pontio yn digwydd yn ddyddiol yn ystod bywydau ein plant, sy'n galluogi iddynt i ddatblygu sgiliau angenrheidiol sydd eu hangen arnynt o fewn bywyd dydd i ddydd. Dywed Freud (2020), bod cyfnod pontio yn gallu bod yn amser caled iawn i blant, sy'n eu drysu ac yn eu cynhyrfu, am ei fod yn newid ei arferion dyddiol. Rhai cyfnodau pontio i blant yn y blynyddoedd cynnar yw wrth iddynt symud o gartref i feithrin, o feithrin i feithrin yr ysgol, ac yna i'r dosbarth derbyn, o'r babanod i'r iau ac o'r iau i ysgol uwchradd a.y.y.b. Gall nifer o blant gweld hi'n anodd addasu yn ystod cyfnodau pontio, sy'n gallu cael effaith negyddol ar ei lles a chyflawniad academiaidd. Yn ystod cyfnod pontio yn eich meithrin, mae'n bwysig

eich bod yn deall ei fod yn bwysig iawn i blant i siarad am unrhyw broblemau sydd ganddynt, a dylent deimlo fel eu bod yn cael y cymorth cywir i setlo mewn i'ch meithrin (Freud, 2020).

Gall cyfnod pontio ofni unrhyw blentyn, ac mae angen iddoch ystyried pob plentyn yn unigryw, mae'n bwysig iawn i gofio fod cyfnod pontio yn broses hir iawn, a ni fydd hyn yn gweithio dros nos. Dylech geisio cynllunio beth yr ydych am wneud gyda'r plant, er mwyn iddynt deimlo'n gyffyrddus yn y sefyllfa, ac er mwyn i'r rhieni deall yn union beth sydd yn mynd ymlaen, a sut mae eu plant yn teimlo o fewn y sefyllfa. Mae'n hynod o bwysig bod y plentyn yn teimlo fel ei fod eisiau yn eich meithrin, ac mae'n bwysig iawn hefyd i gadw'r rhieni neu'r gofalwyr mewn cyswllt agos, er mwyn iddoch fel staff i ddod i adnabod y plant. (Clarke, 2020)

Yn ôl Angela Oswalt (2020), fe wnaeth Bronfenbrenner, yn 1979, datblygu'r syniad o fod popeth sy'n digwydd i blentyn, er enghraifft effaith yr amgylchedd o'i amgylch yn effeithio'r plentyn yn y pendraw, gyda'i sgiliau academaidd ac ati. Os caiff y plentyn ei fagu a'i addysgu o fewn amgylchedd positif iawn mae'n debygol bydd y

plentyn yn tyfu i fod yn llawer mwy llwyddiannus yn y dyfodol. Mae'n bwysig iawn i aelodau o staff ac i rheini cadw cysylltiad agos, er mwyn cael well datblygiad i'r plant, ac i gael perthnasoedd positif, sy'n galluogi i gyfnod pontio i fynd yn fwy llyfn i'r plant. Mae popeth sy'n digwydd o fewn bywyd plentyn cael effaith ar ei gilydd, er enghraifft effaith y rhieni, ac yna effaith Gwaith y rhieni, ysgol y plentyn ac yna pethau fel crefydd ac ati.



(Pinterest,2018)

Sut i ddefnyddio y llawlyfr yma?

Caiff y llawlyfr yma ei ysgrifennu er mwyn anelu at aelodau staff allweddol o fewn sefydliad Meithrin, gyda phlant rhwng yr oedran 2 a 3. Dylai'r llyfr cael ei ddefnyddio yn effeithiol, wrth iddynt eich cyngori gyda sut i gymdeithasu gyda phlant a sut i helpu nhw yn ystod eu cyfnod pontio. Prif bwrpas y llawlyfr hwn yw rhoi gymorth i blant wrth iddynt ddechrau yn eich sefydliad, i helpu eu lles meddyliol, ac i ddarparu help iddynt i sicrhau ei fod yn cael profiad cadarnhaol o newid, fel dywed y Llywodraeth. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2017), dylech geisio sicrhau bod pob plentyn yn cael eu trin fel unigolyn, ac nid fel grŵp o blant.

Fel dywed Gooch (2018), dylai staff allweddol a rhieni weithio llaw yn llaw gyda'i gilydd er mwyn cael y canlyniad gorau ar gyfer y plant yn y pendraw, er enghraifft trwy ffonio neu e-bostio. Mae hyn hefyd yn caniatáu bod pob plentyn yn iachus yn ffisegol, meddyliol ac yn emosiynol, yn amlwg mae angen i staff a rhieni addysgu plant sgiliau gwahanol, sy'n gweithio gyda'i gilydd. Hyn yw beth mae Damcaniaeth Maslow yn sôn amdano (Explore Psychology, 2019) mae angen cael cymorth oddi wrth

oedolion o fewn bywyd plant ar gyfer teimlo'n dd am eu hunain, sy'n annog plant i deimlo'n llawn cymhelliant.

Bydd y llawlyfr yn caniatáu i gyfnod pontio i fod yn amser positif a chadarnhaol ar gyfer staff, rhieni ac y plant, wrth i bob plentyn cael y gefnogaeth angenrheidiol.

Rôl yr Oedolyn

O fewn eich sefydliad, dylech geisio sicrhau bod aelodau o staff yn ymwybodol bydd angen iddynt i ddelio efo plant a rhieni, a hyn yw'r aelod o staff allweddol.

Yr aelod o staff allweddol = Y person sydd yn debygol o fod yn agosaf at blant sbesiffig, er enghraifft 1 aelod o staff i 5 plentyn, mae disgwyl i'r aelod yma i groesawi'r plentyn yn ystod y cyfnod pontio, gan sicrhau bod y plentyn yn gyfforddus, a nhw dylai cefnogi'r plentyn trwy gyda, ei amser yn y meithrin. Fel arfer y person hwn sy'n delio efo pethau personol y plentyn, er enghraifft newid ei chewyn ac ati, a nhw fydd yn datrys unrhyw broblemau gyda' r rhieni. (BusyBee, 2020).

Mae gan oedolion o fewn meithrin dyletswydd i sicrhau bod pob plentyn yn gyfforddus o fewn y sefydliad yn ystod y cyfnod pontio, ac yn teimlo fel bod ganddynt bwrpas. Yn ôl Wellingborough (2018), prif bwrpas yr aelodau o staff allweddol yw arsylwi plant o fewn y meithrin yn enwedig yn ystod cyfnod pontio, er mwyn ddeall beth mae'r plentyn eisoes yn deall, er mwyn ffocysu ar beth yn union maen nhw'n gwybod yn lle ei ddrysu gan geisio gwneud gwahanol bethau, felly ni ddylai unrhyw blentyn cael ei

eithrio neu ei rhoi o dan anfantais. Mae angen i'r aelodau o staff i eistedd gyda'r plant er mwyn siarad a chwarae ganddynt, hon yw'r ffordd gorau iddynt ddysgu am ei hun ac am y byd. Mae ganddynt ddyletswydd i ddeall am brofiadau pob plentyn yn y meithrin, wrth iddynt gyfathrebu gyda'r rhieni. (Gallwch weld hyn wrth sôn am 'Perthnasoedd' ar dudalen 17) Yn ôl Early Years Matter (2020), dylai'r cyfathrebu yma digwydd cyn i'r plant ddechrau yn y meithrin, er mwyn i'r staff ddeall anghenion y plant, fel unigolion. Mae pob plentyn eisiau teimlo yn ddiogel ac fel bod eu gofalwyr yn gofalu amdanynt, felly mae disgwyl i'r oedolyn allweddol i ofalu am y plentyn a'i drin yn ddeg, wrth iddynt helpu gyda lles meddyliol, iechyd ffisegol ac unrhyw broblemau sy'n codi. Fel arfer, y person hwn fydd yn delio efo'r plentyn os mae rhywbeth wedi digwydd, neu os mae'r plentyn methu setlo yn dda o fewn eich sefydliad. (Early Years Matter, 2020).

Syniad arall ar gyfer sicrhau bod cyfnod pontio yn mynd yn llyfn ar gyfer y plant yw dod i adnabod y plentyn cyn iddynt ddechrau yn eich sefydliad, er enghraifft gall aelod o'r staff trefnu diwrnod gyda'r teulu a'u cwrdd yn ei thŷ, er mwyn weld sut mae'r plentyn yn actio ac ati o fewn man

ddiogel iddyn nhw. Byddwch yn gallu gweld beth mae'r plentyn yn hoffi gwneud, pa amser maen nhw yn bwyta, beth maen nhw'n hoff iawn o fwyta ac i'r gwrthwyneb. (First Discovers, 2017).

Pam mae'n bwysig i wneud hyn?

Creda Montessori (Learning Theories, 2019) bod amgylcheddau addas ar gyfer plant yn hynod o bwysig, (Gallwch ddeall hyn yn well ar dudalen 12). Felly wrth iddoch ymweld â phlant yn eu tai, rydych yn eu arsylwi er mwyn ddeall ei chymeriad, sy'n eich caniatáu i gynllunio ar gyfer y plentyn yn ystod ei chyfnod pontio.

Fel sefydliad, mae angen i chi sicrhau bod pawb yn y sefyllfa yn gyfforddus ac yn ymwybodol o beth sydd yn mynd ymlaen, mae gan yr aelod allweddol dyletswydd i greu perthynas gyda'r sefydliad a'r rhieni/gofalwr er mwyn gallu cyd-weithio ar gyfer cael y bywyd gorau ar gyfer y plentyn. Yn ôl John Bowlby, (Learning discoveries, 2016) mae gan blant perthynas gryf gyda'i phrif ofalwr, fel arfer y fam, a dyma yw'r Damcaniaeth Ymlyniad, felly wrth i blentyn dechrau yn eich sefydliad byddent yn teimlo ar goll, ac yn eisiau ei phrif ofalwr, felly mae angen i'r aelod allweddol i gysuro'r plentyn wrth iddynt edrych am ei

rhiant neu wrth iddynt gynhyrfu am ei fod yn teimlo elfen o golled, sy'n codi straen ar y plentyn, a ni fyddent yn hoffi eich sefydliad, a hyn yw'r senario rydym am osgoi. Dylai'r person allweddol sicrhau perthynas gryf gyda'r plentyn er mwyn iddynt wybod nad ydynt yna ar ben ei hun, ac maent yn teimlo fel ei fod eisiau yn eich sefydliad, mae angen cofio bod adeg pontio yn amser caled i bob plentyn ac mae rhaid deall bod pob un yn mynd i ddelio efo'r senario yn ffordd wahanol, ac mae rhaid trin pob un fel person eu hunain. (Learning Theories, 2016).

Yn ôl Phillip Spurgeon (2018), mae gan oedolion rôl hynod o bwysig mewn cyfnod plant, yn enwedig adeg pontio, er enghraifft:

- Annog plant i ddysgu ac i ddatblygu trwy chwarae, fel dywed yn erthygl 31, ar wefan Comisynydd Plant Cymru (2020).
- Creu amgylchedd sy'n galluogi plant i ddatblygu eu dychymyg
- Gweithio gyda rhieni/gofalwyr i gefnogi'r plant
- Helpu plant i ddatblygu eu sgiliau iaith a mathemateg
- Cynllunio gemau addysgol

- Helpu plant i baratoi ar gyfer pontio rhwng y meithrin ac yr ysgol

Fel oedolyn o fewn Mudiad Meithrin (2020), mae disgwyl iddoch i sicrhau bod popeth yn addas ar gyfer plant, ac mae'r holl weithgareddau wedi eu haddasu er mwyn cwrdd ag anghenion plant eich sefydliad. Rydych am geisio gwneud i'r sefydliad i edrych yn groesawgar, er mwyn sicrhau bod plant yn ystod eu cyfnodau pontio yn teimlo yn ddiogel ac fel bod ganddynt ddigon i wneud. Yn ôl Maria Montessori, mae angen amgylchedd sy'n ffocysu ar anghenion plant a darparu offer sy'n gweithio, mae angen sicrhau bod defnyddiau ac offer ar gael ar lefel y plant, er enghraifft dylech roi silffoedd lle mae plant yn gallu estyn llyfrau neu gemau, a dylech geisio cael cadeiriau bach er mwyn i blant teimlo fel bod yr ystafell wedi ei gynllunio ar ei gyfer. (Newcombe, 2012).

Gallwch cael mynediad i wefan Mudiad Meithrin, er mwyn cael cymorth pellach ar y linc yma:

<https://www.meithrin.cymru>



(Bilingual Kidspot: 2017).

Anghenion Y Plentyn

Mae gan bob plentyn anghenion gwahanol, am fod datblygiad pawb yn wahanol, am ei fod yn datblygu mewn ffordd aflinol, er enghraifft os mae ganddynt frawd neu chwaer ac yn y blaen. Bydd angen iddoch i addasu gosodiadau'r cwricwlwm er mwyn iddo fod yn addas ar gyfer yr unigolion. Ni ddylai unrhyw blentyn cael ei drin yn annheg oherwydd eu rhyw, eu hoedran, ethnigrwydd, diwylliant, iaith, cefndir teuluol, crefydd neu eu hanghenion dysgu, dylai popeth sydd yn cael ei wneud o fewn eich sefydliad cael ei wneud ar les pawb, a rhaid cynllunio ar gyfer y plant fel unigolion. Mae rhaid cofio, wrth i blant ymuno gyda chi yn eich sefydliad, byddent yn ofni ac ati, a rydent am deimlo fel ei fod yn ddiogel ac yn gwmni pobl dda.

Chwarae?

“Play is how children use their vocabulary by interacting with toys and people around them”

(Lauren Boeke, 2019).

Er mwyn gwella datblygiad pob plentyn mae angen iddynt gymdeithasu gydag aelodau o staff a phlant arall eich

sefydliad. Mae chwarae yn rhan hanfodol o ddysgu i blant o fewn Mudiad Meithrin, dyma yw'r ffordd y maen nhw'n dysgu am ei hunain ac am y byd. Yn ôl ymchwil gan Lywodraeth Cymru (2020), mae chwarae yn rhan hanfodol o ddatblygiad plant, sy'n datblygu ac ymestyn dealltwriaeth, iaith a sgiliau cymdeithasol plant, mae'n galluogi plant i gymryd cyfrifoldeb, i gymryd risgiau, ac i wneud camgymeriadau, heb feddwl eu bod yn methu trwy'r amser, dyma yw'r ffordd mae plant yn wneud synnwyr o ein byd. Mae angen i blant i gael profiad gyda chwarae arferol a chwarae yn greadigol, yn archwiliadol ac yn ddychmygus.

- Yn ystod y cyfnod pontio mae angen wneud gweithgareddau sydd yn annog y plant i setlo yn dda o fewn eich sefydliad, mae angen i'r gweithgareddau bod yn syml ond rhai sydd yn dal diddordeb. Mae angen i'r 'chwarae' yma fod yn briodol ar gyfer anghenion pob plentyn fel unigolion, sydd yn eu galluogi i fwynhau'r gweithgaredd. Yn ôl Nursery Activities (2018) mae yna nifer o weithgareddau gallwch wneud ar gyfer anghenion plant, yn enwedig er mwyn eu harsylwi i sicrhau datblygiad ac i sicrhau

eu bod yn mwynhau yn ystod cyfnodau pontio, er enghraifft:

- Chwarae gyda dŵr
- Paintio
- Chwarae gyda papur
- Chwarae gyda mwd
- Creu pethau yn wneud gyda'r amgylchedd
- Creu pethau sy'n gwneud sŵn
- Canu
- Darllen

(Nursery Activities, 2018)

Gallwch hefyd defnyddio yr amgylchedd i addysgu plant am ein byd, gallwch wyllo'r clip fideo canlynol i ddeall beth allwch wneud:

<https://www.youtube.com/watch?v=9nSoL6UZ7-k>

Sut i gefnogi plant?

Mae angen cefnogaeth gan blant yn ystod eu cyfnod pontio, fel dywed John Dewey (Robbinson 2018) mae plant yn dysgu wrth iddynt ryngweithio gydag eraill, mae'n well i blant os ydych yn wneud tasgau ganddynt lle maent

yn mwynhau ac ati. Mae addysg yn broses o fyw ac nid paratoad ar gyfer dyfodol, nid dyletswydd chi fel athrawon yw addysgu plant ond i'w annog i ddeall y byd yr ydym yn byw ynddo, a sut i ddelio efo'r gymdeithas. Creda Dewey bod angen i blant i dderbyn offer sydd yn gweithio, ac nid pethau fel sisiwrnnau plastig sydd yn plygu ac ati. Yn ystod y cyfnod pontio bydd plant am wneud pethau tebyg i adref ac felly byddent am chwarae tu allan, fel arfer. Mae Dewey yn dweud bod plant yn dysgu'n well o eraill, felly mae'n hynod o bwysig i blant i gael cysylltiad agos gyda'r aelod o staff allweddol, er enghraifft mae plant eisiau i'ch staff i chwarae gyda nhw wrth ystyried eu diddordeb, fel enghraifft cwn, chwarae cwn, darllen am cwn neu wyllo clipiau fideos, mae angen i'r staff i ymestyn ar ddealltwriaeth plant, gadewch i'r plant eisiau gofyn mwy. (Allana Robinson, 2018).

Yn union fel dyweda Dewey mae Vugotsky yn cytuno, creda bod y byd mae plant yn byw ynddo yn cael ei lunio gan deuluoedd, ffrindiau, cymunedau, statws economaidd y gymdeithas, diwylliant ac addysg (Fulbrook, 2019).

Er mwyn sicrhau cyfnod pontio llwyddiannus, dylech geisio cael sesiynau byr cyn iddynt ddechrau yn eich sefydliad, bydd hyn y caniatáu i'r plant i ddod i adnabod chi fel staff, i weld yr ystafell ac i ddeall beth yn union sydd yn mynd i ddigwydd iddynt. Gall hyn wneud y plant yn ymwybodol o le mae'r toiledau, lle mae ei bag a'i got, er mwyn iddo deimlo fel ei fod yn adnabod y lle cyn dechrau yn llawn amser. Mae hyn yn helpu nifer o blant, yn enwedig wrth iddynt adael eu rhieni am y tro gyntaf ers genedigaeth. (First Discovers, 2017).

Perthnasoedd

- Wrth i blentyn ymuno chi yn eich meithrin, mae'n bwysig creu partneriaethau gyda'r teulu/gofalwyr, er mwyn deall anghenion sbesifig pob person fel unigolion. Mae angen iddoch creu cysylltiad cryf gyda'r teulu, wrth i'r ddau barti cymryd cyfrifoldeb

dros y plentyn. Mae yna wahanol ffordd o ddatblygu perthynas gyda theuluoedd, gan gynnwys:

- Cefnogi unrhyw anghenion ddysgu neu anghenion ffisegol
- Rhannu gwybodaeth
- Gwneud penderfynniad gorau ar gyfer y plentyn

Wrth greu perthnasoedd rydych yn adeiladu bond lle mae rhieni yn gallu ymddiried ynddoch chi wrth gyd-weithio, ac mae'r rhieni yn ymwybodol bod y plant yn ddiogel o fewn eich dwylo. Mae'n hynod o bwysig bod y rhieni yn ymwybodol o ddatblygiad y plant, yn enwedig yn ystod adeg pontion, gallwch sicrhau hyn trwy ddanfon llyfr adref yn sôn am beth mae ei blentyn wedi gwneud yn ystod y dydd, ac mae'n rhoi cyfle i'r rhieni i ddweud sut oedd y plentyn gartref hefyd, sy'n tracio datblygiad y plant, mae hyn hefyd yn eich caniatáu i rannu newyddion ynglŷn â beth sydd yn digwydd yn ystod yr wythnos, er enghraifft unrhyw dripiâu neu weithgareddau, neu os mae rhywun yn ymweld gydag eich sefydliad. Ond, mae rhaid iddoch ystyried bod hyn yn gallu fod yn anodd, ydy'r teulu yn siarad Cymraeg neu Saesneg? Gallwch hefyd wneud nosweithiau rhieni, lle gallwch siarad mewn dyfnder am

ei ddatblygiad, sy'n caniatáu i chi fel gweithwyr allweddol a rhieni i rannu unrhyw bryderon ac ati. Fel Mudiad Meithrin, gallwch dal boreau coffee, lle mae'r teuluoedd yn dod mewn i'ch sefydliad ac yn cymdeithasu gyda rhieni a staff eraill, er mwyn weld sut mae eu plant yn actio gydag eraill ac ati, gall hyn rhoi hwb i ddealltwriaeth y rhieni am y sefydliad. (Stars, 2020).

Casgliad

Felly, yn fyr, mae'n amlwg iawn fod cyfnod pontio yn wahanol ar gyfer pob unigolyn ac mae angen iddoch chi fel sefydliad i addasu popeth er mwyn i bob plentyn i deimlo fel eu bod yn ddiogel ac yn gyfforddus. Mae angen iddoch sicrhau bod cysylltiadau da gyda'r teuluoedd er mwyn iddynt eich helpu chi fel sefydliad, ac i ddatrys unrhyw broblemau sydd yn dod i'r arwyneb gyda'r plant.

Rhestr Cyfeirnod

Anna Freud (2020) *Transitions*. Available at: <https://www.mentallyhealthyschools.org.uk/risks-and-protective-factors/school-based-risk-factors/transitions/> (Accessed: 17 o Dachwedd 2020)

April,S (2019) *The Importnace of Play in Early Childhood Development*. Available at: <https://www.toledolibrary.org/blog/the-importance-of-play-in-early-childhood-development> (Accessed: 20 o Dachwedd 2020)

Busy Bees (2020) *The Key Person*. Available at: <https://www.busybeeschildcare.co.uk/the-key-person> Accessed: 18 o Dachwedd 2020)

Cherry (2019) *Maslows Hierarchy of Needs*. Available at: <https://www.explorepsychology.com/maslows-hierarchy-of-needs/#:~:text=5%20Levels%20of%20Maslow%E2%80%99s%20Hierarchy%20of%20Needs%201,begin%20to%20take%20greater%20precedence.%20More%20items...%20> (Accessed: 23 o Dachwedd 2020)

Clarke (2020) *Different Types of Transitions in Child Development*. Available at: <https://www.twinkl.co.uk/blog/different-types-of-transitions-in-child-development> (Accessed: 17 o Dachwedd 2020)

Collins Dictionary (2020) *Definition of Transitions*. Available at: <https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/transition> (Accessed: 17 o Dachwedd 2020)

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *CCUHP. Hawliau Plant*. Available at: <https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp-hawliau-planthttpswww-youtube-comwatchvvs1usdrn-voindex4listplgsiznczbjkhq3lfdktmsbnlhtbzu5yrc/> (Accessed: 23 o Dachwedd 2020)

Early Years Matters (2020) *Key Person & Attachment*. Available at: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/positive-relationships/key-person-attachment/> (Accessed: 18 o Dachwedd 2020)

First Discoverers (2017) *How to help young children settle into a new Nursery*. Available at: <https://www.firstdiscoverers.co.uk/new-nursery-settle/> (Accessed: 18 o Dachwedd 2020)

Flying Start (2017) *Transition Guide*. Available at: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/flying-start-transition-guidance-for-professionals.pdf>. (Accessed: 17 o Dachwedd 2020)

Fulbrook (2019) *Lev Vygotsky Learning Theorists*. Available at: <https://teacherofsci.com/vygotsky/> (Accessed: 23 o Dachwedd 2020)

Gooch (2018) *Parents and Teachers Working Together*. Available at: <http://www.aspirehealthcorp.com/2016/08/teamwork-parents-and-teachers-working-together/#:~:text=Parents%20and%20teachers%20have%20a,together%20towards%20this%20common%20goal.&text=Each%20party%20contributes%20their%20own,knowledge%20toward%20meeting%20the%20objectives>. (Accessed: 17 o Dachwedd 2020)

'Learning Through Play' (2016) Available at: <https://www.youtube.com/watch?v=9nSoL6UZ7-k> (Accessed: 23 o Dachwedd 2020)

Mudiad Meithrin (2020) *Arbenigwyr y Blynyddoedd Cynnar*. Available at: <https://www.meithrin.cymru/> (Accessed: 23 o Dachwedd 2020)

Newcombe (2012) *What are Montessori Nurseries*. Available at: <http://www.earlychildhoodeducation.co.uk/what-are-montessori-nurseries.html#:~:text=Dr%20Montessori%20believed%20that%20children%27s,this%20natural%20potential%20to%20emerge>. (Accessed: 18 o Dachwedd 2020)

Nursery Activities (2018) *Nursery Activities Ideas*. Available at: <https://www.nurseryactivityideas.co.uk/> (Accessed: 20 o Dachwedd 2020)

Robinson (2018) *Early Childhood Theorists*. Available at: <https://www.allanarobinson.com/early-childhood-theorists-john-dewey/> (Accessed: 20 o Dachwedd 2020)

Spuregon (2018) *Guide to Becoming an Early Years Practitioner*. Available at: <https://www.stonebridge.uk.com/blog/early-years-and-child-care/a-guide-to-working-as-an-early-years-practitioner> (Accessed: 18 o Dachwedd 2020)

Oswal (2020) *Child and Adolescent Development*. Available at: [https://www.gulfbend.org/poc/view_doc.php?type=doc&id=7930#:~:text=Urie%20Bronfenbrenner%20\(1917%2D2005\),a%20child%20grows%20and%20develops](https://www.gulfbend.org/poc/view_doc.php?type=doc&id=7930#:~:text=Urie%20Bronfenbrenner%20(1917%2D2005),a%20child%20grows%20and%20develops) (Accessed: 17 o Dachwedd 2020)

Stars (2020) *4 Reasons every Nursery Should have a Partnership with Parents*. Available at: <https://www.starschildcaregroup.co.uk/blog/4-reasons-every-nursery-should-have-a-partnership-with-parents#:~:text=A%20partnership%20with%20parents%20ensures,be%20voiced%20to%20the%20parents.> (Accessed: 20 o Dachwedd 2020)

Wellingbrough (2019) *Role of the Adult*. Available at: <http://wellingboroughnurseryschools federation.co.uk/role-of-the-adult/#:~:text=Adults%20need%20to%20value%20and,risk%2Dtaking%20by%20the%20children..> (Accessed: 17 o Dachwedd 2020)

Welsh Government (2020) *Nursery Education for 3 and 4 Year Olds in Wales*. Available at: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/foundation-phase-nursery-guide-for-parents-and-carers.pdf> (Accessed: 18 o Dachwedd 2020)